

**CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**  
**COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES**

**Cofnodion drafft 6<sup>ed</sup> cyfarfod Grŵp Cyswllt yACA Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar 25<sup>ain</sup> Tachwedd 2002 (dechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.**

**Yn bresennol:**

David Archer	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mike Bowyer	Archeoleg
Bill Bracewell	Clwb Hwyllo Dyfi/Partneriaeth Aberdyfi
Aled Davies	Cyngor Gwynedd
Barry Davies	Cyngor Gwynedd
Iwan Edgar	
Rod Gritten	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Andy Hall	
Lucy Kay	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (nodiadau)
Peter Lloyd	Cymdeithas Hwyllo Cymru/RYA
Bill Miller-Jones	Sub Aqua Association
Kirsten Ramsay	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cllr Caerwyn Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cadeirydd)
Rowland Sharp	WFSA
Mike Thrussell	
Cllr Ray Quant	Cyngor Sir Ceredigion
Dylan Williams	Asiantaeth yr Amgylchedd

**Ymddiheuriadau:**

Jim Andrews	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd a Gogledd Orllewin Cymru
Tony Andrews	Dŵr Cymru Welsh Water
Alf Bowen	Cadeirydd Cyngor Cymuned Aberdyfi
Chris Corcoran	Cadw Cymru'n Daclus
Huw Davies	Cyngor Gwynedd
Jan Edwards	Dŵr Cymru Welsh Water
Jill Jackson	Cyngor Gwynedd
Andy Jeffrey	Outward Bound Wales
Tony Porter	Trinity House
Iain Roberts	Cadeirydd Sirol Undeb Ffermwyr yr NFU / Pysgotwr
Craig Rockcliff	Asiantaeth yr Amgylchedd
Jill Whipp	Ymgrych Diogelu Cymru Wledig (CPRW)

**1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- 1.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**2. Materion yn codi**

- 2.1 Eitem 2.5: Dylai Lucy ysgrifennu at aelodau'r Grŵp Cyswllt sydd heb fynychu cyfarfodydd neu gydnabod unrhyw ohebiaeth, er mwyn gweld a ydynt yn fodlon parhau i fod yn gynrychiolwyr ar y Grŵp Cyswllt. **Gweithredu: Lucy - dygwyd ymlaen.**
- 2.2 Eitem 3.2.1: Cwblhawyd. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ynglŷn â fformat yr adroddiad.
- 2.3 Eitem 5.2: Cwblhawyd. Dywedodd Chris Corcoran, Cadw Cymru'n Daclus (CCD), y byddai gan CCD ddiddordeb mawr mewn cael cynrychiolydd ar y Grŵp Cyswllt. Nid oedd CCD wedi gallu mynychu'r cyfarfod hwn, ond byddai rhywun yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

**3. Safoni ACA – atborth ar y broses o ymgynghori â'r cyhoedd**

- 3.1 Rhoddodd Lucy wybod inni am y diweddaraaf ynglŷn â'r broses o ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y newidiadau terfynol i'r yACA. Roedd holl aelodau'r Grŵp Cyswllt wedi cael copïau o'r wybodaeth ymgynghori. Ymgynghorwyd â 700, a derbyniwyd 60 o ymatebion. Derbyniwyd un gwrthwynebiad, ond roedd mwyafrif llethol y rhai a ymatebodd yn ceisio eglurhad ac yr oedd rhai'n cefnogi'r cynnig. Anfonwyd canlyniadau'r ymgynghori at Lywodraeth y Cynulliad, ac yr oedd y Cyngor Cefn Gwlad yn

disgwyl ymateb ynglŷn â chyflwyno'r safle i Ewrop. Diwedd 2004 yw'r cyfnod o hyd ar gyfer dynodi'r yACA. Pan gaiff y safle ei gyflwyno i Ewrop, ceir proses lle bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried clwstwr o safleoedd sydd wedi eu cyflwyno gan bob aelod-wladwriaeth, ac yn penderfynu a ddylai'r safleoedd ddod yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol. Ar ôl y cam hwn, gellir dynodi'r safleoedd (nid yw'r broses ar gyfer gwneud hyn yn glir eto, ond efallai y bydd y llywodraeth yn gwneud cyhoeddiad ar gyfer pob aelod-wladwriaeth).

#### **4. Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith**

- 4.1 Dosbarthwyd y diweddaraf ynglŷn â'r gwaith a wnaed yn ystod Ebrill – Hydref 2002 yn y cyfarfod. Roedd yn crynhoi unrhyw weithredu allweddol a'r gwaith yr aeth yr awdurdodau perthnasol ac eraill i'r afael ag ef yn ystod y cyfnod, gan nodi unrhyw weithredu sydd wedi ei drefnu ar gyfer 2002 – 03 ond sydd wedi cael ei drosglwyddo i 2003-04. Mae mwy o gopïau ar gael gan Lucy.

Siaradodd cynrychiolwyr yr awdurdodau perthnasol a oedd yn bresennol am y gweithredu y maent hwy wedi ei arwain mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

**Gweithredu: Dylai Rod Gritten anfon copïau o'r mapiau yn deillio o'r broses o fapio'r Spartina ym Mawddach at Mike Thrussell.**

**Gweithredu: Dylai Lucy anfon copi o'r pecyn sleidiau yACA a'r cyflwyniad Powerpoint at y Cynghorydd Quant, Mike Bowyer, Bill Miller-Jones a Caerwyn Roberts.**

**Gweithredu: Dylai Lucy anfon copi o'r Cynllun Gweithredu llawn at y Cynghorydd Quant.**

#### **5. Dosbarthu cofnodion cyfarfod y Grŵp Cyswllt**

- 5.1 Aeth Lucy ati i ailgrynhosi sut y cafodd gwybodaeth sy'n deillio o'r Grŵp Cyswllt ei dosbarthu i grŵp ehangach o grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb – lluniwyd rhestr bostio yn sgîl y cyfarfodydd cyhoeddus a'r gwaith a oedd yn ymwneud â'r cynllun rheoli a'r cynllun gweithredu. Efallai fod y rhestr hon braidd yn hen bellach, ac efallai nad yw'n cynnwys pobl yr ymgynghorwyd â hwy yn ddiweddar.
- 5.2 Pan fydd y safle'n cael ei gyflwyno i Ewrop, rhaid i'r Cyngor Cefn Gwlad ysgrifennu at bawb yr ymgynghorwyd â hwy i roi gwybod iddynt fod hyn ar y gweill – bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r gwaith yma ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Esboniodd Lucy mai'r bwriad oedd cynnwys bonyn ar waelod y llythyr fel y gallai pobl ei dorri ymaith a'i ddychwelyd pe bai ganddynt ddiddordeb mewn parhau i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r yACA. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau perthnasol i gadarnhau pwy sy'n dymuno cael eu cynnwys ar y rhestr bostio ehangach.
- 5.3 Awgrymodd Mike Thrussell y dylai Cynghorau Cymuned barhau i gael eu cynnwys ar y rhestr bostio, hyd yn oed pe na baent yn ymateb. Awgrymwyd y byddai'n werth ceisio canfod pwy a fyddai'n gyfrifol am waith yn ymwneud â'r yACA ar bob cyngor cymuned, gan ei bod yn ymddangos na châl'r wybodaeth a gâi ei hanfon at glercod y Cynghorau ei dosbarthu i aelodau eraill y Cynghorau bob amser.
- 5.4 Gofynnwyd i gynrychiolwyr y Grŵp Cyswllt sut yr oeddent yn dosbarthu gwybodaeth a ddeilliai o gyfarfodydd Grŵp Cyswllt i eraill: mae Peter Lloyd yn trosglwyddo'r wybodaeth i Gymdeithas Hwyllo Cymru a'r Gymdeithas Hwyllo Brydeinig; mae Andy Hill yn trosglwyddo'r wybodaeth i benaethiaid canolfannau addysg awyr agored; mae Bill Miller-Jones yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Sub Aqua Association ac i'w glwb deifio lleol; mae Mike Bowyer yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r rhai sy'n delio ag archeoleg y môr; mae Rowland Sharp yn trosglwyddo'r wybodaeth i bysgotwyr; ac mae Mike Thrussell yn defnyddio'i wefan i ddosbarthu gwybodaeth sy'n deillio o'r Grŵp.
- 5.5 Cytunodd amryw o aelodau'r Grŵp y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o'r wybodaeth drwy e-bost os yn bosibl. Gofynnwyd i gynrychiolwyr y grwpiau gyflwyno eu cyfeiriadau e-bost er mwyn i grŵp e-bost gael ei sefydlu, ond hefyd i ddangos a fyddai'n well ganddynt gael copïau papur o wybodaeth a gyflwynir.
- Gweithredu: Cynrychiolwyr y Grŵp Cyswllt i roi gwybod i Lucy a yw'n well ganddynt gael gwybodaeth drwy gopïau papur neu ar ffurf electroneg, ac, os mai'r olaf, rhoi eu cyfeiriad e-bost i Lucy.**

**6. Cyflwyniad a thrafodaeth: Arolygon yn yr yACA a chynnwys eraill**

- 6.1 Eglurodd Lucy mai prawf oedd hwn i weld a fyddai'n ddefnyddiol cael cyflwyniad a thrafodaeth am bwnc arbennig perthnasol i'r yACA. Y nôd oedd gwneud cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt yn fwy addysgiadol am weithgareddau a materion perthnasol i'r yACA, ac ysgogi trafodaeth am bynciau arbennig.
- 6.2 Rhoddodd Lucy ragarweiniad i arolygon biolegol o fewn yr yACA a rhoddodd Kirsten Ramsay (Biolegydd Is-lanwol CCGC) gyflwyniad am y gwaith sydd wedi bod yn digwydd yn yr yACA yng nghyswllt gwirfoddolwyr mewn arolygon biolegol tanddwr.
- 6.3 Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael cyflwyniad fel eitem sefydlog yn y cyfarfodydd Grŵp. Cafwyd cynigion i roi cyflwyniad mewn cyfarfodydd yn y dyfodol gan Andy Hall, Mike Bowyer a Barry Davies.  
**Gweithredu: Lucy i gysylltu â'r Grŵp Cyswllt a chynrychiolwyr awdurdodau perthnasol ynglŷn â chyflwyniadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

**7. UFA**

Nid oedd unrhyw fater arall yn codi.

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7pm Dydd Iau 15<sup>fed</sup> Mai 2003 ym Mhlas Tan y Bwlch.